Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Health and Social Care Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

14 Ionawr 2015

Annwyl David

**Adroddiad ar waith craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ôl deddfu o ran y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.**

Amgaeaf gopi o adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei waith craffu ar ôl deddfu ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a fydd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad ar 15 Ionawr 2015. Noder bod yr adroddiad yn parhau i fod o dan embargo tan 00.01 ar 15 Ionawr 2015.

Yn yr adroddiad, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud nifer o argymhellion, rhai ohonynt yn ymwneud yn benodol â'r maes iechyd meddwl, ac eraill sy'n ymwneud â gwneud, gweithredu a gwerthuso deddfwriaeth. Felly, mae'n bosibl bod yr adroddiad o ddiddordeb i chi a'ch Pwyllgor mewn cysylltiad â'ch ymchwiliad i ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad.


Yn arbennig, hoffwn dynnu eich sylw at:

- Argymhelliad 7, sy'n ymwneud â dulliau o ymgynghori yn ystod y camau i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso deddfwriaeth Llywodraeth Cymru;
- Paragraffau 98 i 111, sy'n ymwneud â chynnwys plant a phobl ifanc o fewn cwmpas y Mesur yn ystod gwaith y Cynulliad o graffu ar y Mesur arfaethedig, a rôl gwaith craffu cyn deddfu; ac

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 0300 200 6354
E-bost / Email: SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales
Twitter: @iechydsenedd / @seneddhealth
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

- Argymhelliad 10, sy’n ymwneud â’r dadansoddiad cost a budd o ddeddfwriaeth.

Yn gywir,



**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol